

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GWRW A'R DAFARN
CROSS PARTY GROUP ON BEER AND THE PUB**

Cadeirydd : JACK SARGEANT AC/AM : Cadeirydd

Ysgrifennydd : JOHN POCKETT : Secretary

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mawrth 2019 i ailsefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol yn dilyn ymddiswyddiad y cadeirydd blaenorol fel Aelod Cynulliad. Etholwyd Jack Sargeant AC yn ystod y cyfarfod i gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol, a John Pockett fel ysgrifenyddiaeth. Mae cofnodion y cyfarfod hwn wedi'u darparu ac ar gael ar dudalen Rhestr Grwpiau Trawsbleidiol gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Aeth yr Ysgrifennydd Anrhydeddus i seremoni yn Nhafarn y Four Elms yn y Rhath, Caerdydd, gyda Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, i nodi cyflwyniad Gwobr Tafarn y Flwyddyn i Dafarn y Four Elms. Trefnwyd y seremoni gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan.

Cynhaliwyd sesiwn blasu cwrw ar y cyd gyda'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan ar Gwrw a'r Dafarn ar 22 Hydref ym Mae Caerdydd. Trefnwyd hyn gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol, a daeth un deg un o Aelodau'r Cynulliad ynghyd â deuddeg cynrychiolydd o fragdai bach o bob cwr o Gymru. Siaradodd Jack Sargeant AC, a chadeiriodd John Pockett ran ffurfiol y noson. Darparwyd cinio bys a bawd gan Brains Brewery Cyf.

Mae cynlluniau ar y gweill i drefnu ail-lansiad ffurfiol y Grŵp Trawsbleidiol, a chyfres o ddigwyddiadau 'Bragu gyda'ch Aelod Cynulliad', pan fydd Aelod Cynulliad yn ymweld â bragdy lleol i gael taith a chyflwyno tystysgrif swyddogol gan y Grŵp Trawsbleidiol.

Gwahoddwyd Jack Sargeant AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, i siarad yng nghynhadledd flynyddol Pubwatch y DU ym mis Chwefror 2020.

Nid oes unrhyw faterion ariannol i adrodd amdanynt gan nad yw'r Grŵp Trawsbleidiol wedi cael unrhyw gyfraniadau, nawdd ariannol, na chymorth ariannol arall.

JACK SARGEANT AC/AM

Cadeirydd : Chair

JOHN POCKETT

Ysgrifennydd : Secretary

Tachwedd 2019 November 2019

Datganiad Ariannol Blynyddol

7 Ionawr 2020

Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai

Jack Sargeant AC, Cadeirydd

John Pockett, Ysgrifennydd

Treuliau'r grŵp.	Dim.	£0.00
Costau'r holl nwyddau.	Ni phrynwyd unrhyw nwyddau.	£0.00
Buddion y mae'r grŵp neu Aelodau unigol wedi'u cael gan gyrff allanol.	Ni chafwyd unrhyw fuddion.	£0.00
Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall.	Ni chafwyd unrhyw gymorth ariannol.	£0.00
Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, fel lletygarwch.		
Ni thalodd neb am unrhyw luniaeth.		
Dyddiad	Disgrifiad ac enw'r darparwr	Cost
		£0.00
Cyfanswm y gost		£0.00